

Cylchlythyr



Hydref 2025

Parcio / Parking

Gofynnwn yn garedig i chi beidio parcio ar y llinellau igam ogam ar bwys y groesfan. Rydym yn deall bod parcio yn anodd ond mae parcio ar y llinellau yma yn lleihau gwelededd ac yn beryglus i'r rhai sy'n croesi.

Mae diogelwch y plant yn holl bwysig i ni.

We kindly ask you not to park on the zigzag lines near the crossing. We understand that parking is difficult but parking on these lines reduces visibility and is dangerous for those crossing.

The children's safety is of upmost importance to us.



Codi ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl - Meddyliau Ifanc

Ar yr 8fed o Hydref byddwn yn gwisgo melyn i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl - Meddyliau Ifanc. Mae croeso i'r plant wisgo unrhywbeth melyn, boed yn fand gwallt, crys t neu sanau melyn. Bydd bathodynau emoji, bandiau a sticeri ar werth am £1 yn y swyddfa. Cyfraniadau i elusen Young Minds.



Raising awareness of Mental Health – Young Minds

On the 8th of October we will be wearing yellow to raise awareness of mental health – Young Minds. The children are welcome to wear anything yellow, be it a headband, T-shirt or yellow socks. Emoji badges, bands and stickers will be on sale for £1 in the office and all proceeds will go to the Young Minds Charity.





Caffi Mathemateg / Mathematics Cafe

Rydym yn estyn croeso cynnes i rieni/ rieni cu ac i unrhywun o'r teulu i ymuno â ni ar y dyddiadau isod i weld sut rydyn ni'n addysgu Mathemateg.

We extend a warm welcome to parents/grandparents and anyone from the family to join us on the dates below to see how we teach Mathematics.

Blwyddyn 1 a 2 - 17eg o Hydref 2.00 y.h / Year 1 and 2 - 17th of October 2.00pm (yn y Neuadd / in the hall)

Blwyddyn 3 - 7fed o Dachwedd 2.00 y.h / Year 3 - 7th of November 2.00pm

Blwyddyn 4 - 14eg o Dachwedd 2.00 y.h / Year 4 - 14th of November 2.00pm

Blwyddyn 5 a 6 - 21ain o Dachwedd 2.00 y.h / Year 5 and 6 - 21st of November 2.00pm




Lluniau Dosbarth / Class Photos

Rydym wedi trefnu lluniau unigol ar y 20fed o Hydref. Os yw hyn yn disgyn ar ddiwrnod Addysg Gorfforol/diwrnod Dysgu Awyr Agored, yna anfonwch eich plentyn i'r ysgol yn eu gwisg ysgol.

Dewch â'ch gwên orau!

We have arranged individual photos for the 20th of October. If this falls on a PE day/Outdoor Learning day, please could you send your child to school in their school uniform.

Bring your best smiles!



Byrbryd Iachus

Healthy Snack

Rydym yn annog ein disgyblion i fwyta'n iach. Gofynnwn yn garedig i'r plant ddod â byrbryd iachus a photel dŵr i'r ysgol bob dydd. Bydd staff y Meithrin yn darparu ffrwythau i'r plant meithrin bob dydd.

Ni chaniateir unrhyw greision neu siocled fel byrbryd amser chwarae.

We encourage our pupils to eat healthily. We kindly ask the children to bring a healthy snack and a water bottle to school every day. The Nursery staff will provide fruit for the Nursery children everyday.

No crisps or chocolate are allowed as a snack at playtime.





Noson Cwrdd â'r Athro – Cyfarfodydd Cynnydd

Bydd cyfle gyda chi i gwrdd gydag athro eich plentyn ar y 21ain a'r 22ain o Hydref. Bydd yr athrawon yn rhannu gwybodaeth bwysig am ddatblygiad a chynnydd eich plentyn yn ystod y cyfarfod yma. Bydd ffurflen Google yn dod atoch wythnos nesaf i drefnu amseroedd.



Meet the Teacher – Progress Meetings

You will have the opportunity to meet your child's teacher on the 21st and 22nd of October. The teachers will share important information about your child's development and progress during this meeting. A Google form will be sent out next week to arrange times.



Dyddiadau i'ch Dyddiaduron!

Dates for your Diaries!



Dyddiadau Ymarfer Corff/ Sporting Event Dates	
Pêl-droed EFL Cup Blwyddyn 6 / Year 6 Football EFL Cup	9/10/2025
Traws gwlad Blwyddyn 3 i 6 / Cross Country Years 3 to 6 Bailey Park	15/10/2025



Diwrnodau Dysgu Tu Fas / Outdoor Learning Days 2025



LLun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener
Blwyddyn 1 a 2 / Year 1 and 2	Meithrin / Nursery	Derbyn / Reception	Blwyddyn 5 a 6 / Year 5 and 6	Blwyddyn 3 a 4 / Year 3 and 4
Mrs Glyn / Mrs Phillips Miss Evans	Miss Apperley	Mrs Elliot/ Mrs Carrington Miss Nuttall	Mrs Hughes /Mrs Hoskins Mrs Leaver – Thomas	Miss Davies a Miss O’Leary Mrs White/ Miss Beech
6.10.25 20.10.25	7.10.25 21.10.25	8.10.25 22.10.25	9.10.25 23.10.25	10.10.25 (HMS) 24.10.25
10.11.25 24.11.25 8.12.25	11.11.25 25.11.25 9.12.25	12.11.25 26.11.25 10.12.25	13.11.25 27.11.25 11.12.25	14.11.25 28.11.25 12.12.25





Clybiau 2025 / Clubs 2025



Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener
Clwb Pêl-droed Football Club	Dim Clwb	Clwb Celf a Chrefft <i>Arts and Crafts Club</i>	Clwb Chwaraeon Sports Club Clwb Garddio Gardening Club	Dim Clwb
Blwyddyn/ Year 3,4,5 and 6		Blwyddyn/ Year 3,4,5 and 6	Blwyddyn/ Year 3,4,5 and 6	




Diwrnodau HMS

Bydd 6 diwrnod HMS unwaith eto'r flwyddyn hon. Mae rhagor o fanylion yn y tabl isod.

INSET Days

There will be 6 INSET days once again this year. Please find further details in the table below.

Diwrnodau HMS 2025-26 Inset Dates	
Dydd Gwener / Friday	10/10/2025
Dydd Llun / Monday	03/11/2025
Dydd Llun / Monday	05/01/2026
Dydd Llun / Monday	23/02/2026
Dydd Llun / Monday	13/04/2026



Tymhorau Ysgol / Term dates 2025 - 2026

Tymor	Tymor yn dechrau	Hanner tymor yn dechrau	Hanner tymor yn gorffen	Tymor yn gorffen
Hydref	1/9/25	27/10/25	31/10/25	19/12/25
Gwanwyn	5/01/26	16/02/26	20/02/26	27/03/26
Haf	13/04/26	25/05/26	29/05/26	20/07/26

CADY / ALNCo
Mrs G Hughes yw'r Cydlynnydd Anghenion
Dysgu Ychwanegol (CADY). Gallwch gysylltu
â hi os oes gennych chi unrhyw ymholiadau
ynghlŷn ag anghenion arbennig.

Mrs G Hughes is the school's Additional Learning
Needs Coordinator, known as ALNCo. You may
contact her if you have any queries about
additional learning needs.



Pennaeth a Dirprwy bennaeth / Headteacher
and Deputy Head
Mae Miss R Davies a Mrs H Roberts ar gael i
ddarparu unrhyw gymorth sydd ei angen.
Mae'r drws wastad ar agor!

Miss R Davies and Mrs H Roberts are available
to provide any support needed. The door is
always open!

Lles yr Ysgol

Wellbeing

Miss H James yw ein Mentor Addysgu. Mae hi'n darparu cefnogaeth grŵp ac unigol trwy
'Lego Therapy', 'Drawing and Talking' ac ELSA.

Miss H James is our Learning Mentor. She provides group and individual support through Lego
therapy, Drawing and Talking and ELSA.